

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran

Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th



DARLLENWCH
loan 5: 1-16

Astudiaeth I Nerth Iesu – Gwella Pobl Sâl



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Mathew 4: 23-25 Marc 1:32-34 loan 5: 17-27

Roedd Iesu'n crwydro llawer o gwmpas y wlad a daeth ar draws llawer o bobl. Roedd gan lawer ohonynt ryw broblem. Roedd gan Iesu nerth i'w gwella. Doedd neb byth yr un peth ar ôl cwrdd â Iesu. Newidiodd bywyd y dyn yn y Darlleniad heddiw yn llwyr!


C Ar y map o'r ddinas, marciwch y gwahanol lefydd:-

1) Enw'r ddinas.

2) Enw'r pwll.

3) Enw'r porth (neu'r farchnad).


C Roedd 5 cyntedd i'r pwll. Llanwch y 5 bwll yn y frawddeg isod ac ysgrifennwch y llythrennau coll yn y cynteddau.



3

Gofynnodd Iesu i'r dyn "A wyt i'n dymuno cael dy wella?"

Atebodd y dyn nad oedd yn gallu cyrraedd mewn pryd a bod rhywun arall yn mynd i mewn o'i flaen ond dywedodd Iesu wrtho "C_me_ dy _atras a cherdd_."



5

- C** Mae'r llythrennau yn y cynteddau yn dangos faint o bobl oedd yn disgwyl cael eu gwella. Ysgrifennwch y gair yma.

Gwelodd Iesu fod angen help ar y dyn ac aeth i'w helpu.

- C** Beth ofynnodd Iesu i'r dyn?

- C** Beth oedd ateb y dyn?

- C** Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau isod yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR** a rhowch rif yr adnod i brofi eich ateb:-

Dywedodd Iesu, "Fe wna i dy helpu di i gyrraedd y dŵr!"	Adnod
Cafodd y dyn ei wella ar unwaith.	Adnod
Roedd yr Iddewon yn falch o'r hyn wnaeth Iesu.	Adnod
Cafodd y dyn ei wella ar y Saboth.	Adnod

- C** Rhowch y brawddegau isod yn y drefn gywir trwy roi'r rhifau 1 – 6 yn y blychau. (Darllenwch adnoddau 12 – 16)

- ☐ Dywedodd Iesu wrth y dyn am beidio â phechu eto rhag i rywbeth gwaeth ddigwydd iddo.
- ☐ Roedd Iesu wedi mynd i ffwrdd gan fod tyrfa yno.
- ☐ Dywedodd y dyn wrth yr Iddewon mai Iesu oedd wedi'i wella.
- ☐ Daeth Iesu o hyd iddo yn y Deml.
- ☐ Gofynnodd yr Iddewon i'r dyn, "Pwy ddywedodd wrthyti ti am gario dy fatras?"
- ☐ Dechreuodd yr Iddewon erlid Iesu.

Unwaith eto, roedd arweinwyr yr Iddewon yn cymryd mwy o ddiddordeb mewn ufuddhau i fanylion y Gyfraith nag mewn dangos cariad, gofal a charedigrwydd at bobl mewn angen. Esboniodd Iesu ei fod ef yn bendithio pobl sy'n credu neu'n ymddiried yn ei nerth a'i air ef yn hytrach na phobl sy'n ufuddhau i set o reolau o waith dyn.

- C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu beth y mae'n rhaid i ni ei wneud er mwyn cael bywyd tragwyddol.